

Bwletin Costau Byw: Gwneud y Mwyaf o'ch Incwm

Gwneud i bob punt gyfri

Os ydych chi'n byw yng Ngheredigion ac yn teimlo pwysau costau cynyddol, nid ydych ar eich pen eich hun. Y newyddion da yw y gallai fod budd-daliadau, grantiau a chymorth lleol ar gael i helpu i gynyddu eich incwm a lleihau treuliau bob dydd.

Mae'r bwletin y mis hwn yn canolbwyntio ar **Wneud y Mwyaf o'ch Incwm** – i helpu gwneud yn siŵr nad ydych chi'n colli allan ar gymorth ariannol y mae hawl gennych fynediad i.

NEWYDD: Cynllun Cymorth Tanwydd Gwresogi Oddi ar y Grid

Mae Cyngor Ceredigion yn gweinyddu **Cynllun Cymorth Tanwydd Gwresogi Oddi ar y Grid** Llywodraeth Cymru.

Os ydych wedi derbyn llythyr neu e-bost gan y Cyngor, gallwch hawlio'ch taliad drwy lenwi'r ffurflen ar-lein:

 <https://eforms.ceredigion.gov.uk/ctrsheating/>

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen, gall staff yn eich llyfrgell leol ddarparu cymorth.

Heb dderbyn llythyr?

Efallai y byddwch yn gymwys os byddwch chi yn:

- Defnyddio olew gwresogi neu LPG fel eich prif ffynhonnell gwresogi neu ddŵr poeth; **ac yn**
- Derbyn cymorth Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Gorffennaf 2026.

Cysylltwch â'r Cyngor gan ddyfynnu eich rhif cyfeirnod Treth Gyngor:

 **01545 570881**

 HeatingFuelScheme@ceredigion.gov.uk

Mae eich rhif cyfeirnod Treth Gyngor i'w weld ar ohebiaeth y Dreth Gyngor gan Gyngor Sir Ceredigion.

Help gyda'r Dreth Gyngor – A allwch chi fod â hawl i gymorth?

Os ydych ar incwm isel, **efallai y bydd gennych hawl i help gyda'ch bil Treth Gyngor drwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**. Efallai y bydd cymorth ar gael p'un a ydych chi'n gweithio, yn derbyn budd-daliadau, wedi ymddeol, yn rhentu eich cartref neu'n berchennog tŷ.

I gael gwybod mwy, cysylltwch â Chyngor Ceredigion am gyngor  01545 570881

Gallwch hefyd ddefnyddio [Cyfrifiannell Hawliau'r Cyngor](#) i gael amcangyfrif o unrhyw Fudd-dal Tai neu Gostyngiad Treth y Cyngor y gallech fod â hawl iddo.

 Neu gallwch lenwi [ffurflen gais ar-lein](#).

Llinell Gymorth Advicelink Cymru

Ffoniwch y [linell gymorth 'Claim What's Yours'](#) ar **0800 702 2020** i gael canllawiau cyfrinachol am ddim ar wneud cais am fudd-daliadau fel Taliad Annibyniaeth Bersonol, Lwfans Gofalwr, neu Gredyd Pensiwn.

Mae'r gwasanaeth ar gael rhwng 8am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a dydd Sadwrn rhwng 9am ac 1pm.

Tariffau cymdeithasol a biliau wedi'i lleihau

Os ydych chi'n derbyn budd-daliadau penodol, efallai y byddwch yn gallu lleihau costau eich cartref drwy dariffau cymdeithasol a chynlluniau cymorth.

Wi-Fi a Ffôn

Mae pecynnau Gostyngol Wi-Fi a ffôn ar gael trwy lawer o ddarparwyr ar gyfer pobl sy'n derbyn budd-daliadau fel Credyd Cynhwysol a Chredyd Pensiwn. [Edrychwch ar wefan Ofcom am fanylion](#).

Dŵr Cymru

Mae Dŵr Cymru yn cynnig cynlluniau fel [tariff HelpU](#) i helpu aelwydydd incwm isel cymwys i leihau eu biliau dŵr.

Cymorth Ynni

Mae llawer o gyflenwyr ynni yn cynnig cronfeydd caledi a chymorth talu i gwsmeriaid sy'n cael trafferth gyda biliau. Cysylltwch â'ch cyflenwr i ddarganfod pa gymorth sydd ar gael.

Cysylltwyr Cymunedol

Gall Cysylltwyr Cymunedol eich helpu i gael mynediad at wasanaethau lleol, grwpiau cymorth a sefydliadau a allai wella eich lles a'ch sefyllfa ariannol.

Gallant:

- Eich cyfeirio at gymorth lleol a gwasanaethau cymunedol
- Darparu gwybodaeth am grwpiau a gweithgareddau yn eich ardal
- Eich helpu i gael gafael ar gymorth ieuchyd a lles
- Cynorthwyo gyda cheisiadau Bathodyn Glas a Thocyn Bws

Mae'r gwasanaeth am ddim ac ar gael ledled Ceredigion.

 **Ffôn: 01545 574200**

 clic@ceredigion.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, ewch i [Community Connectors - Ceredigion County Council](#)

Cyngor ar Bopeth Ceredigion

[Mae Cyngor ar Bopeth Ceredigion](#) yn darparu cyngor am ddim, cyfrinachol a diduedd ar ystod eang o faterion, gan gynnwys budd-daliadau, dyled, tai a chyflogaeth.

Gallant eich helpu i wirio a oes gennych hawl i gymorth ariannol ychwanegol ac, lle bo hynny'n briodol, trefnu apwyntiad gyda chynghorydd i drafod eich amgylchiadau a'ch opsiynau.

Sut i gysylltu â Chyngor ar Bopeth Ceredigion

- **Ffôn:** 01239 621974 / 01970 612817
(*Dydd Llun, Mawrth a Dydd Iau, 10am–1pm*)
- **WhatsApp:** 07971 802060
- **Negesydd Facebook:** @CeredigionCAB
- **Ebost:** ask@cabceredigion.org
- **Post:** CAB Ceredigion, Blwch Post 76, Llanbedr Pont Steffan, SA48 9BY

Sesiynau Galw Heibio-

- **Aberystwyth:** Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth, Rhodfa'r Parc, SY23 1PG.
(*Dydd Mawrth, 10am–2pm*)

- **Aberteifi:** Neuadd Hen Ysgol y Santes Fair, SA43 1DW
(Dydd Mercher, 10am–2pm)
- **Llanbedr Pont Steffan:** Eglwys Emmaus, 78 Stryd y Bont, SA48 7AB
(Dydd Llun, 10am–2pm)

Turn2us

Mae Turn2us yn elusen genedlaethol sy'n helpu pobl i gael mynediad i'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt.

Cyfrifiannell Budd-daliadau

Mae miliynau o bobl yn colli allan ar fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Defnyddiwch y Cyfrifiannell Budd-daliadau Turn2us i wirio a allech chi gynyddu eich incwm trwy fudd-daliadau a chymorth ariannol arall.

Grantiau

Mae miloedd o grantiau elusennol ar gael ledled y DU. Defnyddiwch offeryn Chwilio am Grantiau Turn2us i ddod o hyd i grantiau y gallech fod yn gymwys amdanynt – arian nad oes angen ei ad-dalu.

Age Cymru Dyfed

Mae llawer o bobl hŷn yn teimlo effaith costau byw cynyddol ac efallai eu bod yn colli allan ar gymorth ariannol sydd ganddynt hawl iddo.

Gall Gwasanaeth Gwybodaeth a Chynghori cyfrinachol **Age Cymru Dyfed** helpu pobl hŷn yng Ngheredigion i wneud y mwyaf o'u hincwm drwy wiriadau budd-daliadau personol a chymorth gyda cheisiadau am fudd-daliadau fel Credyd Pensiwn, Lwfans Presenoldeb, Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth y Cyngor.

Gall hyd yn oed cynnydd bach mewn incwm wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gostau byw bob dydd a lles. Gall eu cynghorwyr cyfeillgar ddarparu arweiniad a chefnogaeth ymarferol trwy gydol y broses.

Gallai sgwrs syml helpu i ddatgloi cefnogaeth ac arbedion gwerthfawr

☎ 03333 447 874 ✉ reception@agecymrudfyfed.org.uk

Cymorth Gofal Plant

Gall talu am ofal plant fod yn ddrud, ond mae cymorth ar gael i helpu teuluoedd sy'n gweithio i wneud y mwyaf o'u hincwm a lleihau costau gofal plant. Gellir dod o hyd i

wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael ar [dudalen Gofal Plant a Chwarae Cyngor Ceredigion](#).

Ar gyfer plant 2 oed – Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn cynnig gofal plant a chymorth teuluol i blant dan 4 oed. [Defnyddiwch y gwiriwr cod post ar wefan Cyngor Sir Ceredigion](#) i weld a yw'ch plentyn yn gymwys.

Ar gyfer plant 3 a 4 oed – Cynnig Gofal Plant i Gymru

Gall rhai rhieni sy'n gweithio, mewn addysg neu hyfforddiant, cael mynediad at hyd at **30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir yr wythnos** am hyd at 48 wythnos o'r flwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [dudalennau](#) Cynnig Gofal Plant Cymru Cyngor Sir Ceredigion, neu ffoniwch 01545 510881 a gofynnwch am y tîm Cynnig Gofal Plant.

Academi Arian

Eisiau gwneud i'ch arian fynd ymhellach? Mae'r **Academi Arian** yn gwrs ar-lein am ddim a grëwyd gan **y Brifysgol Agored** a **MoneySavingExpert** i helpu pobl i adeiladu eu hyder ariannol a rheoli eu harian yn fwy effeithiol.

Mae'r cwrs yn cwmpasu cyllidebu, cynilo, benthyca, a gwneud penderfyniadau ariannol gwybodus, gydag awgrymiadau ymarferol i helpu i wneud y mwyaf o'ch incwm a lleihau gwariant diangen.

Cyrchwch y cwrs am ddim ar y [platform OpenLearn](#).

Tudalen Cymorth Costau Byw Cyngor Ceredigion

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion dudalen [Cymorth Costau Byw](#) i helpu pobl leol ddod o hyd i gymorth ariannol, lleihau costau cartrefi, a chael mynediad at wasanaethau cymorth yng Ngheredigion.

Mae tudalennau poblogaidd yn cynnwys:

- **Budd-daliadau a Chymorth Incwm**
- **Cyngor Ariannol a Dyled**
- **Cymorth Bwyd**
- **Addysg a Chostau Ysgol**
- **Biliau Aelwydydd ac Ynni**

- **Tai a Digartrefedd**
- **Mannau Croeso Cynnes**
- **Cymorth i bobl hŷn**
- **Cymorth i Ofalwyr**

Os ydych chi'n edrych i wneud y mwyaf o'ch incwm neu ddod o hyd i help gyda chostau byw cynyddol, mae tudalennau Costau Byw y Cyngor yn lle da i ddechrau.

MoneyHelper

Mae MoneyHelper yn cynnig arweiniad diduedd am ddim i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian. P'un a ydych chi'n chwilio am help gyda chyllidebu, budd-daliadau, cynilo arian, dyled, pensiynau neu gostau byw bob dydd, mae help a chyngor ymarferol i gefnogi eich lles ariannol.

Ewch i wefan [MoneyHelper](#) i gael awgrymiadau, cyfrifianellau ac arweiniad ar reoli eich arian a gwneud y mwyaf o'ch incwm.

Ydych chi'n colli mas a'r credyd pensiwn?

Gall miloedd o bensiynwyr ar draws Ceredigion fod yn colli allan ar **Gredyd Pensiwn**. Yn hanesyddol, mae Ceredigion wedi cael un o'r cyfraddau derbyn isaf yng Nghymru, sy'n golygu efallai na fydd llawer o drigolion hŷn yn derbyn cymorth y mae ganddynt hawl iddo.

Gall Credyd Pensiwn:

- Ychwanegwch eich incwm wythnosol
- Eich helpu i fod yn gymwys i gael Gostyngiad Treth y Cyngor
- Darparu mynediad at Drwydded Deledu am ddim (ar gyfer pobl gymwys dros 75 oed)
- Rhoi mynediad at Daliadau Tywydd Oer
- Help gyda chostau'r GIG, gan gynnwys triniaeth ddeintyddol a sbectol

Mae'n werth gwirio hyd yn oed os oes gennych gynilion, yn berchen ar eich cartref, yn derbyn pensiwn arall neu os oes gennych incwm bach.

Am gyngor a chymorth, cysylltwch â Chyngor ar Bopeth Ceredigion 📞 01239 621974 / 01970 612817 neu cysylltwch â Chyngor Sir Ceredigion ar 📞 01545 570881

I gau:

Diolch am ddarllen ein Bwletin Costau Byw. Gobeithio fod y bwletin hyn wedi bod yn ddefnyddiol.

Ewch i wefan y Cyngor Sir i gael rhagor o wybodaeth am gymorth costau byw:

[Cymorth Costau Byw - Ceredigion County Council](#)

Bydd y bwletin nesaf yn dod allan ar Awst 14eg, 2026. Byddwn yn canolbwyntio ar '**Cymorth i Deuluoedd a Rhieni**'

Os hoffech gofrestru i dderbyn ein bwletin costau byw misol, cysylltwch â ni:

Ebost: partnerships@ceredigion.gov.uk Ffôn: 01545 570881

Rhowch wybod i ni beth ydych chi'n ei feddwl o'n e-fwletin trwy ateb dau gwestiwn: [Cliciwch yma am yr arolwg.](#)